**Cofnodion: Grŵp Ecosystem Glaswelltir a Rhostir Cymru**

Cyfarfod 3: 3ydd Gorffennaf 2009 – Y Lanfa, Aberystwyth.

Yn Bresennol:
Sion Brackenbury Tiroedd Comin Gŵyr a Dinas a Sir Abertawe
Nick a Kyra Somerfield Undeb Amaethwyr Cymru
Richard Evans Llywodraeth Cynulliad Cymru
Caroline Wilson Parc Cenedlaethol Eryri
Carrie Rimes CCGC
Stuart Smith CCGC
Charles Morgan PONT
Helen Buckingham Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Trevor Dines Plantlife
Julian Jones Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Faesyfed ac Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru
Juliet Hynes Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru

Ymddiheuriadau:
Sheila Spence Mycolegydd Maes
Chris Tucker Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Dave Lamacraft RSPB
Jan Sherry CCGC
Ivy Berkshire Flora locale
Stella Owen Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr

| Eitem | Trafodaeth | Cam Gweithredu | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| 1. Ymddiheuriadau | Gweler uchod | | |
| 2. Cofnod o gyfarfod blaenorol, | Cynnydd o ran y camau gweithredu a nodwyd ar Gofnodion o gyfarfod 2. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| y diweddaraf ar gamau gweithredu nas cwmpaswyd isod | Camau gweithredu i’w trafod isod:<br><br>A11 – Dygwyd ymlaen | 1. CR i ddosbarthu adroddiad arbrawf Gwrtaith Iard Fferm Pentwyn i’r Grŵp | Dosbarthwyd papur cyfnodolyn |
| | A14 – Dygwyd ymlaen | 2. TD yn cynghori pob grŵp i ychwanegu colofn ychwanegol i gofnodi cynnydd camau gweithredu nes y bydd y grwpiau wedi’u sefydlu ar BARS. | |
| | Ymddengys bod rhai problemau wrth arbed y templed camau gweithredu. | 3. JH yn dweud chwilio am fygiau wrth arbed | Wedi ceisio arbed, ymddangos yn iawn |
| | A15 - Cafodd y camau gweithredu a ychwanegwyd i’r cynllun gweithredu rhostir eu colli am nad oedd y ffeil yn arbed. Dylai fod wedi bod yn eitem yng nghyfarfod 3 ond ni allai JS fynychu oherwydd salwch; dygir ymlaen i’r cyfarfod nesaf. | 4. JH yn ychwanegu cynllun gweithredu rhostir fel eitem ar gyfer agenda cyfarfod 4 | Wedi’i ychwanegu i’r agenda. Dylai bod canllawiau o gyfarfod y Cadeiryddion |
| | A17 - parhaus | 5. JH yn sefydlu system godio ar gyfer nodiadau cyngor a fydd yn gweithio ar BARS. | Parhaus |
| | A19 – dygwyd ymlaen; Samplau’n cael eu casglu o ddarpar gynhalwyr *Phythoptera* | 6. JS yn anfon neges e-bost at JH i’w rhoi ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.. | Cwblhawyd |
| | A25 - dygwyd ymlaen: Cynlluniau ehangu cynefinoedd - “Plant an acre” a Million Ponds y Woodland Trust; mae angen sicrhau bod addasrwydd safleoedd yn cael ei asesu’n briodol ac nad ydym yn cyflawni un cynefin flaenoriaeth ar draul un arall. | 7. HB i siarad â chadeirydd y grŵp ecosystem coetir | Mewn cysylltiad â Chris Tucker – bydd yn gofyn am ymateb cyn y cyfarfod. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | JJ – Swyddog y prosiect Million Ponds yn ymwybodol o’r angen i beidio difrodi safleoedd glaswelltir<br>CW – dylid ei asesu hefyd drwy’r rheoliadau cynllunio onid ydynt yn byllau amaethyddol ar gyfer stoc, a allai lwyddo. | | |
| | A29 – dygwyd ymlaen: angen sefydlu gwahaniaethau rhwng targedau’r DU a mathau o dargedau safonol a chynghori pob Grŵp Ecosystem yn unol â hynny | 8. JH a JS | JH wedi bod drwy’r targedau, nawr mae angen hysbysu grwpiau eraill |
| | A31 – parhaus: Gallai Targed 4 Rhostir Iseldir wneud rhywbeth tebyg i Gymru fel y gwnaeth yr RSPB yn Lloegr. | 9. DL wedi cysylltu â Nigel Symes ar gyfer methodoleg o brosiect HEaP | Ceir methodoleg |
| | A33 – Glaswelltir Calamineraidd. Hefyd mae angen ystyried cyd-destun y DU ar gyfer pennu targedau; yn aros am gyfarfod y DU. | 10. Stuart a Carrie, trafod ar lefel y DU. | Trafod yng nghyfarfod y Grŵp Tir Fferm y DU newydd. Ni cheir cyfeiriad clir ar hyn o bryd. |
| 3. Cynllun Gweithredu Drafft Dolydd Iseldir | Trafodwyd y camau gweithredu a awgrymwyd yn y cynllun gweithredu drafft Dolydd Iseldir ac ychwanegwyd newidiadau a chamau gweithredu newydd gan Stuart Smith.<br><br>Yn gyffredinol, gellid bod wedi ychwanegu mwy o ddisgrifiadau i’r camau gweithredu er mwyn i bobl, a fyddai’n eu darllen heb unrhyw gyflwyniad, eu deall.<br><br>Awgrymodd NS yr angen i nodi un person fel y pwynt cyswllt er mwyn peidio â drysu tirfeddianwyr. | 11. SS i anfon cynllun gweithredu wedi’i ddiweddaru i JH i’w ddosbarthu i’r grŵp Glaswelltir a Rhostir<br><br>12. Y cynllun yn dibynnu gormod ar CCGC ar hyn o bryd, dylid rhoi unrhyw gamau gweithredu perthnasol i SS, erbyn 14eg Awst | Cwblhawyd<br><br>Derbyniwyd rhai sylwadau<br><br>Angen trafod camau gweithredu CAMPUS i ddechrau. |

| | | |
|---|---|---|
| | 13. SS a CR i lunio’r holl gynlluniau gweithredu glaswelltir erbyn Nadolig 2009. | |
| Awgrymwyd bod angen colofn ychwanegol yn y templed er mwyn cofnodi pwy sy’n cyfrannu at yr arian. | 14. TD i roi colofn ychwanegol ar y templed er mwyn cofnodi pwy sy’n ariannu cam gweithredu | |
| Awgrymodd HB y byddai John Rodwell yn darparu cymorth ar gyfer y prosiect dolydd llifogydd, gellir eu hannog hefyd o bosibl drwy gynlluniau atal/rheoli llifogydd. Mae llawer mwy o wybodaeth yn dod o Loegr hefyd. | 15. HB i drosglwyddo cyflwyniad John Rodwell i’r grŵp pan fydd ar gael ddiwedd mis Gorffennaf | Ceir cyflwyniadau ond angen rhoi trefn arnynt cyn eu dosbarthu |
| Cerrig milltir adfer – Awgrymodd RE y gallai defnyddio cyflwyniad dulliau rheoli dymunol fel ffordd o ddangos bod safle’n newid o statws adfer er mwyn cyflawni gweithrediadau cyflwr. Mae’n angen ledled y DU mewn gwirionedd felly dylai fod yn eitem ar gyfer pwyllgor sefydlog y DU ond gallem sefydlu is-grŵp Glaswelltir a Rhostir er mwyn trafod y manylion. Bydd angen i bob grŵp ecosystem edrych ar hyn felly efallai y bydd angen is-grŵp y Grŵp Ecosystem cymysg. | 16. CR i ganfod beth sy’n digwydd ar lefel pwyllgor Sefydlog y DU, cysylltu â Liz Howe o bosibl.<br><br>17. JH i ychwanegu’r awgrym grŵp polisi templed ar gyfer is-grŵp y Grŵp Ecosystem cymysg. | Cynigiwyd prosiect newydd y DU i wneud hyn.<br><br>Wedi’i ychwanegu i’r templed polisi |
| Aelodaeth yr is-grŵp cerrig milltir adfer Glaswelltir a Rhostir: SS (arweinydd), CM, RE, arbenigedd monitro ardal CCGC e.e. Dave Allen neu Dan Guest. | 18. SS i drefnu cyfarfod ar gyfer yr is-grŵp ar gyfer diwedd mis Awst/dechrau | Nid oes ei angen (gweler uchod) |

| | | |
|---|---|---|
| | mis Medi 09 er mwyn cyflwyno gwybodaeth i GlasTir erbyn mis Rhagfyr | |
| Adolygiad o brosiect Dolydd Byw yn y cyfarfod nesaf; beth y mae Ivy yn ei wynebu, beth yw’r materion blaenoriaeth. | 19. JH i ofyn i IB gyflwyno papur ar brosiect Dolydd Byw yn y cyfarfod Glaswelltir a Rhostir nesaf. | Cwblhawyd |
| Cronfa ddata CCGC o safleoedd pwysig – dylid sicrhau bod y rhwydwaith y Ganolfan Gofnodion Leol yn ymwybodol o’r gronfa ddata hon. Efallai nad ydynt yn ei defnyddio ar hyn o bryd am nad yw rhai safleoedd yn cael eu nodi yn ystod chwiliadau gan y Ganolfan Gofnodion Leol ar gyfer datblygwyr. | 20. SS i ofyn i adran wybodaeth CCGC i roi gwybodaeth i’r Ganolfan Gofnodion Leol | Cwblhawyd (6/10/09) |
| | 21. JH i hysbysu’r Ganolfan Gofnodion Leol ynglŷn â’r gronfa ddata | Anfonwyd e-bost i’r Ganolfan Gofnodion Leol |
| Cyhoeddir Adroddiad Cwm Elan yn yr haf | | |
| A yw adroddiad monitro CCGC ar gael? A allai hyn fod yn eitem bosibl ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol. | 22. SS i weld a ellir dosbarthu adroddiad monitro CCGC | Adroddiad yn y cyfarfod |
| | 23. JH i ychwanegu rhestr o eitemau posibl ar gyfer cyfarfodydd Glaswelltir a Rhostir yn y dyfodol | Wedi’i hychwanegu i’r agenda |
| Mae’r Ymddiriedolaeth Glaswelltir wedi bod yn edrych ar yr Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol (AEA) a sut y mae wedi’i gyflwyno. I ffermwyr, mae trawsgydymffurfio’n cwmpasu rheoliadau’r AEA, os byddant yn torri rheoliadau AEA bydd eu taliadau’n cael eu torri. Er hynny, efallai na fydd tirfeddiannwr bychan yn cael eu nodi drwy AEA/rheoliadau trawsgydymffurfio. | | |

| | | |
|---|---|---|
| Mae newid mewn patrymau defnyddio tir wedi golygu bod ffermydd yn cael eu rhannu'n dirddaliadaeth lai e.e. padogau ceffylau. Efallai nad yw'r tirfeddianwyr newydd hyn yn ymwybodol o bwysigrwydd ecolegol eu tir. Efallai y gallwn hysbysu pwysigrwydd glaswelltiroedd i asiantwyr tir, rhywfaint o gyhoeddusrwydd mewn cylchgronau asiantwyr tir? Mae angen delio â'r mater rhannu hwn ar lefel gwlad. Gallai'r grŵp polisi ystyried y mater hwn. Gwerth asedau amgylcheddol, rhywbeth fel y system safleoedd bywyd gwyllt o bosibl? | 24. JH Ychwanegu rhannu tir i'r templed grŵp polisi<br><br>25. CM i drefnu cyfarfod yr is-grŵp erbyn diwedd mis Medi 09: aelodau CM, JJ, TD | Wedi'i ychwanegu i'r polisi<br><br>Wedi dosbarthu syniadau a ffordd ymlaen bosibl. Wedi derbyn sylwadau gan RE. |
| Gellir codi ymwybyddiaeth drwy'r sioe tyddynwyr (Mai 2010) a chydlynu neges drwy'r sefydliadau priodol. Awgrymodd y grŵp y dylai Charles Morgan arwain is-grŵp i drefnu'r strategaeth hon i gynnwys yr aelodau CM, JJ, TD.<br>Dywedodd RE y bydd angen anfon rhywbeth yn ysgrifenedig at Lywodraeth Cynulliad Cymru cyn hir ar gyfer y deunydd cyhoeddusrwydd. | 26. RE i roi enw'r cyswllt priodol yn swyddfa'r wasg Llywodraeth Cynulliad Cymru i CM | Gwnaeth CM gais dilynol am wybodaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ond ni chafwyd ymateb hyd yma. |
| Camau gweithredu Arolygu a Monitro – cyflwr safleoedd statudol? | 27. TD i ofyn i Andrew Peterken am drosolwg o statws cyflwr rhywogaethau nodwedd ar ddolydd Iseldir ar gyfer y cyfarfod Glaswelltir a Rhostir nesaf. | |
| Y gobaith yw y bydd mapio tir yr arolwg cefn gwlad yn darparu dangosydd o gysylltedd yn nhermau mesur targedau ehangiad. Gofynnodd NS sut yr oedd glaswelltir ucheldir yn cyd-fynd â'r grwpiau ecosystem. Mae'r rhan fwyaf o laswelltir ucheldir wedi'i | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | orchuddio gan y grwpiau uwchdir, er nad yw glaswelltir sych asidig yn cael ei gynnwys yn y grŵp ucheldir yn ôl pob golwg. Mae angen egluro pa grŵp sy'n cwmpasu'r cynefin ucheldir hwn. | | |
| | Dywedodd NS, oherwydd costau, mae glaswelltir ucheldir yn newid oherwydd diffyg gwrteithwyr a chalch oherwydd bod ffermwyr yn canolbwyntio ar laswelltir iseldir y maent yn ei reoli'n ddwysach. Gallai costau cyflwyno Tag Electronig leihau niferoedd stoc hefyd, hefyd ceir diffyg gwartheg sy'n pori ar fryniau, ac mae popeth yn newid yn gymharol gyflym. | 28. CM i e-bostio templed o gynllun gweithredu'r is-grŵp ucheldir i NS<br>29. HB i ofyn i Barbara a yw'r grŵp ucheldir yn cwmpasu glaswelltir sych asidig a glaswelltir eraill, gan awgrymu ffordd ymlaen synhwyrol. | Mewn cysylltiad â BJ – gellir rhoi manylion yn y cyfarfod |
| | Y weledigaeth ar gyfer glaswelltir iseldir – mae angen edrych ar waith cynllunio hirdymor ar gyfer glaswelltiroedd iseldir, yr is-grŵp a gynigwyd i ymchwilio hyn (drafft cyflawn erbyn mis Mehefin 2010) Aelodau JJ, HB, CR, SS, IB. Hefyd gallai fod yn ddefnyddiol cynnwys Miles King. | 30. Grŵp arwain JJ i ofyn i Barbara (grŵp ucheldir) faint o amser a gymerwyd i sefydlu'r weledigaeth ucheldir . Trefnu cyfarfod 1af | Parhaus |
| | Targedau Dolydd Iseldir wedi'u dadgyfuno. Lluniwyd y targedau gwreiddiol wedi'u dadgyfuno ar gyfer ardaloedd Cynefinoedd â Blaenoriaeth yng Nghymru. Bydd y rhan fwyaf o Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol wedi cywiro'r rhain yn seiliedig ar wybodaeth leol ac arolygon ar y ddaear. Bydd CR yn gweithio hyn allan drwy'r targedau presennol wedi'u dadgyfuno (fel yr addaswyd gan wybodaeth leol Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol) | 31. JH i gael y targedau cyfredol wedi'u dadgyfuno gan y Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a'u hanfon at CR<br>32. CR yn gweithio ar dargedau newydd wedi'u dadgyfuno ar ôl eu derbyn gan JH. | Cwblhawyd<br><br>Ar waith |
| 4. Echel II: Glas Tir | TD yn llunio neges gyffredin o'r holl Grwpiau Ecosystem i'w bwydo i Glas Tir drwy Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. | | |

| | | |
|---|---|---|
| 1) mae lefel yr arian a gynigir ar gyfer y lefel mynediad yn golygu nad yw ffermwyr yn manteisio arno (£28 fesul hectar). Os yw hyn yn wir beth yw'r pwynt treulio amser yn llunio'r amodau. Roedd y grŵp cyfan yn cefnogi hyn, a chytunodd y gynrychiolaeth ffermwyr y byddai hyn yn debygol o ddigwydd.<br>2) Gellir dadwneud yr holl waith da a wnaed drwy Dir Gofal yn gyflym iawn, mae angen rhoi cynllun parhad da ar waith. TD i edrych am enghreifftiau lle byddai gwaith da a wnaed drwy Dir Gofal yn cael ei ddadwneud pe na fyddai yna gynllun amaeth-amgylchedd ar waith.<br>3) Ofnir mai'r opsiynau hawsaf fydd yr unig rai a weithredir oherwydd mai hwy yw'r rhai rhataf, o ganlyniad i'r dull taliad sefydlog presennol. Mae'n rhaid rhoi mwy o bwysigrwydd i amodau llymach yn y cynllun er mwyn annog ffermwyr i fanteisio arnynt.<br><br>Trafodaeth ychwanegol o'r grŵp Glaswelltir a Rhostir:<br>Oherwydd y bwlch rhwng tynnu Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif yn ôl a chyflwyno Tir Gofal, cafwyd enghreifftiau o waith yn cael ei ddadwneud, nid ydynt am weld hyn yn digwydd eto, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddysgu drwy gamgymeriadau'r gorffennol. Roedd Tir Cynnal yn llwyddiannus iawn o safbwynt y ffermwyr. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru nodi nad yw'r gweithwyr ar y ffermydd a bod yn rhaid i daliadau fferm cwmpasu costau contractwyr. Rhaid osgoi'r oedi gyda'r taliadau a ddigwyddodd pan drosglwyddodd Tir Gofal o CCGC i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Fe wnaeth rhai ffermwyr waith da ar gyfer bioamrywiaeth, a'u bod wedi dweud pe byddent yn gwybod sut y byddai'r system go iawn ni | 33. Pawb i anfon unrhyw enghreifftiau o waith da a fyddai'n cael ei ddadwneud i JH. JH i'w casglu a'u hanfon at HB<br>34. HB i gyflwyno enghreifftiau a gasglwyd i gyfarfod y Cadeiryddion a Diana Reynolds. | 33. Problem o bosibl oherwydd nes y byddwn wedi cael monitro TG ni fyddwn yn gwybod i ba raddau y buont yn llwyddiannus. Bydd JS yn cysylltu â staff/cysylltiadau lleol i weld a oes unrhyw ffermydd lle mae gennym ddata da pendant i ddweud y bu gwelliant a byddwn yn dod â hyn i'r cyfarfod nesaf. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | fyddent wedi cofrestru.<br>Opsiynau âr yw’r rhai mwyaf tebygol o gael eu gadael allan oherwydd nid oes iddynt unrhyw fudd ariannol.<br><br>Bydd cyfarfod yn cael ei drefnu rhwng Diana Reynolds a Chadeiryddion Grwpiau Ecosystem i drafod y cynllun uwch.<br><br>Fel mater mwy cyffredinol, os bydd angen gostyngiadau mewn niferoedd anifeiliaid, beth sy’n digwydd i anifeiliaid o safon, ni ddylid eu lladd, angen eu hail-ddosbarthu. | 35. Ychwanegu'r mater o anifeiliaid o safon i dempled y grŵp polisi | Wedi’i ychwanegu i’r templed newydd |
| 5. Cynlluniau Gweithredu Rhywogaethau | Mae’r Grŵp Arbenigol Rhywogaethau’n datblygu 3 cham gweithredu blaenoriaeth ar gyfer rhywogaethau yng Nghymru.<br>Bydd yn dyrannu camau gweithredu i:<br>Prif bartner – gwaith safleoedd penodol<br>Camau gweithredu polisi – Grŵp Polisi<br>Camau gweithredu penodol – Grŵp Ecosystem<br>Y gobaith yw y bydd camau gweithredu’r Grŵp Ecosystem yn cyd-fynd â’r camau gweithredu yng nghynllun gweithredu Glaswelltir a Rhostir y Grŵp Ecosystem.<br>Y prif bartneriaid fydd yn gyfrifol am bennu camau gweithredu a thargedau blaenoriaeth. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno’n raddol yn ystod y flwyddyn nesaf.<br><br>Mae templed y cynllun gweithredu Rhywogaethau’n debyg i gamau gweithredu a thempled targedau’r Grŵp Ecosystem.<br><br>Mae hefyd yn ymarfer i nodi unrhyw wrthdaro posibl rhwng rhywogaethau er mwyn i wybodaeth fwy syml gael ei throsglwyddo i’r tirfeddianwyr. | 36. Pawb, os byddwch yn anghytuno ag unrhyw rai o’r lleoliadau rhywogaeth o fewn y cynefinoedd dylid cysylltu’n gyntaf â JS.<br><br>37. JH yn edrych i’r mater o roi taenlenni cynllun gweithredu’r Grŵp Ecosystem i BARS gyda hyperddolen “>>mwy” i gamau gweithredu rhywogaethau priodol. | <br><br><br><br><br><br>Parhaus – yn aros am gam nesaf datblygiad BARS |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae'r camau gweithredu rhywogaethau'n gymharol gyffredin ar hyn o bryd, gellir eu gwneud yn fwy penodol drwy ychwanegu rhestr o safleoedd priodol i flychau ardal y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth lleol, a gellir tynhau'r amserlenni hefyd. | 38. TD i gyflwyno'r awgrymiadau hyn i SEG<br>39. DL i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gamau gweithredu cyfeirio adar ar gyfer y cyfarfod nesaf. | |
| 6.Arian | Achub ein dolydd gwych – mae parhad arian wedi bod yn rhwystr felly sefydlwyd grŵp i hwyluso'r broses ariannu. Cyflogwyd Donna Radley fel y swyddog ariannu cyntaf. Awyddus i wneud cais am arian Life + ar gyfer cyfres o brosiectau glaswelltir ledled y DU. Bwriadu cyflwyno cais ym mis Medi 2010. Bydd angen i ni benderfynu ar ein blaenoriaethau ar gyfer prosiectau glaswelltir yn ystod y misoedd nesaf. Mae Donna yn awyddus i ddod i Gymru i siarad gyda'r bobl sy'n gysylltiedig â hyn. | 40. Dylai unrhyw un sy'n awyddus i gwrdd â Donna nodi eu hargaeledd gyda JH ar gyfer yr wythnosau 28ain Medi a 5ed Hydref | Cwblhawyd – cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer 5ed Hydref |
| | Mae angen arian cyfatebol ar Life+, ac mae Donna yn cydweithio'n agos gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri (ac eraill) i geisio cael arian cyfatebol, er y bydd angen i ni, o bosibl, flaenoriaethu prosiectau sydd â gobaith o sicrhau arian cyfatebol. | | |
| | Gallai fod yn bosibl cynnwys hyn yn Life+ ym mis Medi ar gyfer llysgenhadon glaswelltir iseldir, ond rydym yn rhedeg allan o amser ar gyfer hyn ar hyn o bryd.<br>Blaenoriaethau'r rhestr o brosiectau. Gwnaed y sylwadau canlynol:<br>HB – Cynllun Anifeiliaid sy'n Pori Gorllewin Cymru oherwydd bydd yn targedu'r nifer fwyaf o safleoedd ar gyfer ein cynefinoedd.<br>SB – Cais yn cael ei gyflwyno i BIFFAWARD ar gyfer y prosiect yn Sarn, Pen-y-bont ar Ogwr a Gogledd Abertawe, gellid defnyddio'r rhain fel arian cyfatebol Life +. | 41. SB i anfon manylion y prosiect i CR<br>42. Trefnu cyfarfod rhwng John (prosiect calchfaen) a | Gofynnwyd i Carrie e-bostio |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | RE - gofynnodd am fwy o fanylion cyn gallu gwneud unrhyw benderfyniadau.<br>TD – Calchfaen Gogledd Cymru oherwydd mae'r safleoedd yn wynebu bygythiad mawr.<br>JJ – Roedd Living highways yn brosiect da, er ei fod wedi dod i ben byddai'n ddiddorol canfod beth sydd wedi digwydd iddo. Mae gan Bowys grŵp o 50 o wirfoddolwyr sy'n monitro gwarchodfeydd natur gerllaw'r ffordd. Hefyd mae dolydd Sir Fynwy a gwarchodfeydd natur preifat Powys yn darparu rhwydwaith hunan gymorth i dyddynwyr.<br>CM – Partneriaeth Anifeiliaid sy'n Pori Ynys Môn yn gweithio'n dda ond byddai angen ei addasu ar gyfer ardaloedd eraill. Gallai ehangu gwaith Ivy, gan weithio gyda ffermwyr lleol.<br>SS – Cynllun Anifeiliaid sy'n Pori Gorllewin Cymru – mae diffyg rheolaeth ar bori yn broblem fawr. Mae Calchfaen yn $2^{il}$ flaenoriaeth.<br>CW – Glaswelltir sy'n rhy fach ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylchedd.<br><br>Mae TD yn casglu gwybodaeth am y cynlluniau ymyl ffordd er mwyn ei defnyddio yn sgwrs Emma Durward. | Donna<br>43. CM i wneud cyflwyniad ar Gynllun Anifeiliaid sy'n Pori Gorllewin Cymru yn y cyfarfod gyda Donna<br>44. CM i siarad â Mark Sutton o ran a fyddai Cynllun Anifeiliaid sy'n Pori Gorllewin Cymru'n cwmpasu ei 2 brosiect<br>45. Gofyn i Emma Durward (Powys) siarad am 'living highways' yn y cyfarfod<br>46. CR i fwrw golwg ar Ymddiriedolaeth Shared Earth Trust a'u gwaith | John ar gyfer y dyddiadau<br>Cwblhawyd<br><br>Cwblhawyd<br><br>Wedi e-bostio Emma i gadarnhau dyddiadau<br>Adrodd yn ôl yn y cyfarfod |
| Dyddiad y cyfarfod nesaf | | 47. JH i ofyn i DL beth fyddai'n ddyddiad da ar gyfer cyfarfod nesaf Glaswelltir a Rhostir mewn cysylltiad ag amseru mewnbwn Glastir i'w haen uwch.<br>48. JH i ddosbarthu dyddiadau posibl ar gyfer y cyfarfod. | Cwblhawyd<br><br>Cwblhawyd |